Partneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region Skills Partnership

# Cylchlythyr y Gwanwyn ‘26





**Wrth i ni symud drwy ddechrau’r flwyddyn, mae momentwm ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn parhau i gynyddu - wedi’i yrru gan bartneriaethau cryf, mewnwelediad i’r sector, ac ymrwymiad cyffredin i baratoi ein gweithlu at y dyfodol.**

Wedi’i arwain gan ein hegwyddor graidd o ffyniant trwy bartneriaeth, mae’r tymor hwn wedi gweld cerrig milltir pwysig, gan gynnwys lansio ein Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau ar ei newydd wedd, sy’n dod â gwybodaeth cyflogwyr a llais pobl ifanc ynghyd i lunio blaenoriaethau sy’n adlewyrchu’r galw presennol a’r uchelgais o ran y dyfodol.

Mae ein gwaith ar hyd a lled y rhanbarth yn parhau i ddangos mor hanfodol yw cydweithredu. Mae lansiad y Llwybr Gyrfaoedd Gwyrdd, wedi’i ariannu gan y Loteri Genedlaethol, yn brawf o’r buddsoddiad cynyddol mewn sgiliau cynaliadwy, gan helpu i sicrhau y gall pobl ifanc fanteisio ar y cyfleoedd sy’n cael eu creu wrth i Gymru gael ei thrawsnewid i fod yn wlad ag economi carbon isel.

Roedden ni hefyd yn falch o gefnogi Cystadleuaeth Sgiliau Cymru, lle gwnaeth dysgwyr ddangos talent, penderfyniad ac arbenigedd technegol rhyfeddol - gan atgyfnerthu gwerth rhagoriaeth alwedigaethol o fewn ein sectorau â blaenoriaeth.

Ochr yn ochr â hyn, gwnaeth ein gweithdy Gwyrdd a Sero Net diweddar yng Nghynhadledd FfHCC gynnig lle pwysig i ddarparwyr a chyflogwyr archwilio sut y gellir ymgorffori cynaliadwyedd yn ddyfnach mewn hyfforddiant, cwricwlwm a dilyniant.

Mae’r sgyrsiau hyn yn parhau i ddylanwadu ar ein dealltwriaeth o anghenion sgiliau’r rhanbarth ac yn llywio ein gwaith gyda phartneriaid a Llywodraeth Cymru.

Wrth i ni edrych tua’r dyfodol, mae ein ffocws yn parhau i fod ar adeiladu system sgiliau ystwyth, gynhwysol - un sy’n cael ei siapio gan dystiolaeth, ei chryfhau drwy gydweithio, ac sy’n ymateb i’r cyfleoedd a’r heriau sy’n wynebu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Diolch i’n holl bartneriaid, grwpiau clwstwr, a rhanddeiliaid am eich ymgysylltiad a’ch cefnogaeth barhaus a dyma ddymuno tymor cadarnhaol a chynhyrchiol i chi i gyd.

**Leigh Hughes**

**Cadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau PSPRC**

# PSPRC yn lansio Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau newydd â ffocws ar gyflogwyr a phobl ifanc

**Cyrhaeddodd Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PSPRC) garreg filltir bwysig ar 4 Chwefror gyda lansiad ei Chynllun Cyflogaeth a Sgiliau ar ei newydd wedd.**

Cynhaliwyd y digwyddiad yn yr Academi Stêm yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr a daeth â chyflogwyr, darparwyr a phartneriaid ynghyd i archwilio blaenoriaethau sydd wedi'u diweddaru yn sgil newidiadau cyflym yn y farchnad lafur, canllawiau Llywodraeth Cymru, a phwysigrwydd cynyddol sgiliau gwyrdd.

Mae diwygiadau'r cynllun yn rhoi pwyslais cryfach ar gyfleoedd a heriau'r sector, gan sicrhau bod y rhanbarth yn parhau i fod yn ystwyth, wedi'i arwain gan y galw, ac yn cyd-fynd ag anghenion o ran gweithlu'r dyfodol.

Mae sgiliau gwyrdd ac uchelgeisiau sero net yn rhan allweddol o'r cynllun diwygiedig, i helpu i baratoi dysgwyr a chyflogwyr ar gyfer technolegau newydd a symud at economi carbon isel.

Fel rhan o'r lansiad, cynhaliodd PSPRC sesiwn ymgysylltu â chyflogwyr â'r nod o brofi a dilysu themâu sy'n dod i'r amlwg.

Fe wnaethon ni ofyn yr un cwestiynau a'r rhai a gafodd eu gofyn yn ystod sioeau teithiol Llais yr Ifanc dros yr haf, gan alluogi cymhariaeth uniongyrchol rhwng barn cyflogwyr ac adborth gan fwy na 90 o bobl ifanc o bedwar coleg rhanbarthol. Daeth yn amlwg iawn bod y ddau grŵp yn cyd-fynd ar lawer.

Mae'r dull hwn yn dangos ymrwymiad PSPRC i waith cynllunio sy'n adlewyrchu barn cyflogwyr presennol a disgwyliadau gweithlu'r dyfodol.

Gwnaeth pobl ifanc a chyflogwyr nodi'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar fynediad at gyfleoedd. Roedd y rhain yn cynnwys trafnidiaeth, diffyg llwybrau gyrfa gweladwy, a'r canfyddiad bod rhagolygon yng Nghymru yn gyfyngedig.

Tynnodd pobl ifanc sylw at werth cyfathrebu, gwaith tîm a chreadigrwydd, a gwnaeth cyflogwyr ategu'r blaenoriaethau a chodi heriau ehangach p ran cynnydd.

Gyda'i gilydd, mae'r adborth yn dangos angen am well mynediad, mwy o ymwybyddiaeth a mwy o hyder ymhlith dysgwyr sy'n dod i'r gweithlu.

Elfen bwysig o'r cynllun ar ei newydd wedd yw'r pwyslais cryfach ar sgiliau gwyrdd, cynaliadwyedd a sero net.

Mae blaenoriaethau yn cynnwys paratoi pobl ar gyfer swyddi gwyrdd sy'n dod i'r golwg, cefnogi cyflogwyr sy'n trosglwyddo i arferion carbon isel, a sicrhau bod hyfforddiant yn adlewyrchu technolegau newydd a dulliau cynaliadwy.

Rhoddodd y digwyddiad lansio gyfle i gyflogwyr a phartneriaid archwilio sut y bydd yr uchelgeisiau hyn yn cael eu gwireddu ac i drafod yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau.

Trwy roi ymgysylltu wrth wraidd y lansiad - a gwrando ar leisiau cyflogwyr a phobl ifanc - mae'r PSPRC wedi gosod naws o gydweithredu ar gyfer y cam nesaf. Bydd y mewnwelediadau a gasglwyd yn effeithio'n uniongyrchol ar y gwaith sydd ar y gweill ac yn sicrhau bod system sgiliau'r rhanbarth yn parhau i gyd-fynd ag anghenion y diwydiant a llais y dysgwyr ac â ffocws ar gynaliadwyedd a thwf cynhwysol.






# PSPRC yn cefnogi lansiad y Llwybr Gyrfaoedd Gwyrdd sydd wedi'i ariannu gan y Loteri Genedlaethol

**Roedd y PSPRC yn falch iawn o fynychu a chefnogi lansiad Llwybr Gyrfaoedd Gwyrdd newydd Grŵp Codi, sydd wedi'i ariannu gan y Loteri Genedlaethol ac sy'n fenter gwerth miliynau o bunnoedd, ac â'r nod o hybu cyfleoedd gyrfa cynaliadwy i bobl ifanc ledled de Cymru.**

Bydd y rhaglen, gyda chymorth £3 miliwn o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, drwy'r Gronfa Asedau Segur, ar waith dros y pum mlynedd nesaf gyda'r nod o fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau gwyrdd cynyddol yng Nghymru drwy greu llwybrau hygyrch i yrfaoedd sydd â ffocws ar yr amgylchedd.

Dan arweiniad Grŵp Codi, bydd y prosiect yn darparu hyfforddiant, profiad gwaith, lleoliadau â thâl, a chysylltiadau â chyflogwyr, gyda phwyslais cryf ar gefnogi grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

Disgwylir i fwy na 400 o bobl ifanc dderbyn hyfforddiant uniongyrchol, gyda'r gobaith y bydd dros 100 yn symud yn eu blaen i yrfaoedd gwyrdd, a miloedd o bobl eraill yn elwa trwy ymwybyddiaeth ehangach ac ymgyrchoedd dan arweiniad pobl eraill.

Bydd partneriaid ledled Casnewydd ac Abertawe - gan gynnwys grwpiau cymunedol, cyflogwyr ac awdurdodau lleol - yn gweithio gyda'i gilydd i helpu i sicrhau bod gweithlu gwyrdd y dyfodol yn gynhwysol, yn amrywiol ac yn barod i gefnogi trawsnewidiad Cymru i economi sero-net.

Roedd y PSPRC yn falch o fod yn rhan o'r digwyddiad, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i gryfhau ymdrechion i ddatblygu sgiliau yn y rhanbarth a helpu pobl ifanc i greu gyrfaoedd ystyrlon â ffocws ar y dyfodol.



# Arddangosfa Cystadleuaeth Ysbrydoli Sgiliau Cymru

**Ym mis Chwefror, roedd tîm PSPRC yn falch iawn o barhau â'i gefnogaeth i Gystadleuaeth Sgiliau Cymru 2026, menter allweddol sy'n dathlu talent ragorol dysgwyr a phrentisiaid ledled y rhanbarth.**

Wedi'i chynnal ym Mhrifysgol De Cymru, Casnewydd, gwelwyd egni, talent a phenderfyniad cystadleuwyr mewn ystod eang o ddisgyblaethau technegol. Daeth y digwyddiad â dysgwyr o golegau a darparwyr hyfforddiant ledled Cymru at ei gilydd, gyda'r dysgwyr yn arddangos eu sgiliau o dan bwysau fel y byddai yn y byd go iawn a dan lygaid craff beirniaid arbenigol.

Roeddem yn falch o gael ein gwahodd gan dîm Ysbrydoli Sgiliau Cymru i ddiolch i ni am ein cefnogaeth barhaus. Roedd eu croeso cynnes a'u brwdfrydedd yn dangos gwerth gweithio mewn partneriaeth gref wrth godi proffil rhagoriaeth alwedigaethol a hyrwyddo llwybrau gyrfa o ansawdd uchel ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Gwnaeth y cystadleuwyr berfformio'n wych mewn meysydd crefft a thechnegol, gan gynnwys gosod trydanol, paentio ac addurno, gwaith coed, plastro, gwaith brics, a phlymio a gwresogi. Roedd yr awyrgylch yn fywiog, yn gefnogol ac yn hynod ysbrydoledig - yn adlewyrchu gwaith caled cystadleuwyr, tiwtoriaid a threfnwyr.

Mae digwyddiadau fel hyn yn chwarae rhan bwysig wrth ddathlu sgiliau, annog datblygu talent, a chryfhau cysylltiadau â'r diwydiant. Mae'r PSPRC yn falch o barhau i gefnogi'r rhaglen hon ac yn edrych ymlaen at gydweithio â Chystadleuaeth Sgiliau Cymru yn y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am Gystadleuaeth Sgiliau Cymru a'r digwyddiadau sydd i ddod, ewch i: https://inspiringskills.gov.wales/competitions

# Gweithdy Gwyrdd a Sero Net yng Nghynhadledd FfHCC 2026

**Ym mis Mawrth fe wnaethon ni arwain sesiwn ddifyr, wedi'i seilio ar drafod, yng Nghynhadledd FfHCC.**

Daeth Cynhadledd FfHCC 2026 â darparwyr, cyflogwyr a phartneriaid ynghyd i drafod sut y gall Cymru adeiladu system sgiliau fwy ystwyth a pharod i'r dyfodol wrth i gam nesaf y rhaglen brentisiaethau agosáu.

Yn y gweithdy, rhannwyd y cynrychiolwyr yn grwpiau bach i archwilio goblygiadau Sero Net i'w sectorau.

Gweithiodd pob grŵp trwy gwestiynau â ffocws ar:

- yr hyn mae sero net yn ei olygu i'w sefydliad
- anghenion sgiliau gwyrdd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y dyfodol
- rhwystrau i gynnydd
- cyfleoedd cydweithio
- sut gall y rhaglen brentisiaethau ymgorffori cynaliadwyedd yn well

Casglodd hwyluswyr farn pobl i gefnogi gwaith parhaus y PSPRC i lwyr ddeall y farchnad lafur ranbarthol.

Ymhlith yr elfennau pwysig gafodd eu codi gan y cynrychiolwyr, roedd:

- Galw cynyddol cyflogwyr am alluoedd ym maes carbon isel a chynaliadwyedd.
- Angen i gynaliadwyedd gael ei ymgorffori ymhob cwricwlwm, nid mewn diwydiannau "gwyrdd" yn unig.
- Angen am gydweithredu cryfach rhwng darparwyr, cyflogwyr, a phartneriaethau sgiliau.
- Heriau fel cyllid, capasiti, ac anghysondeb o ran deall llwybrau Sero Net.

Bydd canfyddiadau'r gweithdy yn llywio blaenoriaethau PSPRC yn y dyfodol a'u gwaith gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y sector. Mae PSPRC yn diolch i'r holl gynadleddwyr a gyfrannodd eu syniadau a'u harbenigedd, gan helpu i gryfhau llwybr Cymru tuag at weithlu gwyrddach a mwy medrus.

